# Mae'r cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith

**Mae'r cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith yn gyfle i drafod unrhyw broblemau iechyd neu broblemau eraill cysylltiedig yn agored mewn ffordd gefnogol, gan ymdrin â materion cyn gynted â phosibl a gwella presenoldeb yn y gwaith.**

Mae'n rhaid i'r rheolwr llinell gynnal y cyfweliad dychwelyd i'r gwaith (CDIG) pan fydd aelod o staff yn dychwelyd ar ôl cyfnod o absenoldeb, a chwblhau hyn ar-lein drwy MyView ar y ffurflen cyfweliad dychwelyd i'r gwaith, ac mae'n rhaid i'r gweithiwr a'r rheolwr llinell gytuno arni, beth bynnag oedd hyd yr absenoldeb. Mae'n rhaid cynnal y cyfarfod yn breifat mewn modd sensitif, proffesiynol a chymwys.

## Sut i baratoi ar gyfer cyfweliad dychwelyd i'r gwaith

- Sicrhewch fod gennych y wybodaeth gywir: Gwiriwch absenoldebau presennol a blaenorol, a yw'r gweithiwr wedi cyrraedd pwynt sbardun neu'n agos at ei gyrraedd?
- Pennwch unrhyw dueddiadau neu batrymau o absenoldeb
- Meddyliwch am sut y byddech yn ymateb i unrhyw geisiadau e.e., gweithio hyblyg
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gyfarwydd â pholisïau
- Byddwch yn barod i drafod absenoldeb y gweithiwr yn fanwl

## Trafodaeth Cyfweliad Dychwelyd i'r Gwaith

Bydd cynnwys y drafodaeth yn amrywio yn ôl y sefyllfa, ond gall gynnwys:

- Croesawu'r aelod o staff yn ôl i'r gwaith
- Sicrhau bod yr aelod o staff yn hollol ffit i ddychwelyd i'r gwaith
- Esbonio diben y cyfarfod dychwelyd i'r gwaith
- Ceisio pennu rheswm yr absenoldeb os nad yw eisoes yn amlwg (ac a oes ganddo anabledd/a yw darpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010 yn berthnasol)
- Pennu a yw ei salwch yn gysylltiedig â'r gwaith ac a oes unrhyw faterion iechyd a diogelwch y mae angen i chi fynd i'r afael â hwy
- Mynd i'r afael ag unrhyw broblem (yn gysylltiedig â'r gwaith neu fel arall) a allai fod yn achosi'r absenoldebau neu'n cyfrannu atynt
- Os yw'r unigolyn yn agosáu at bwynt sbardun neu wedi'i gyrraedd, esboniwch hyn a beth fydd y camau nesaf
- A ellir rhoi unrhyw addasiad a argymhellwyd gan Iechyd Galwedigaethol ar waith er mwyn lleihau neu ddileu absenoldeb NEU gadarnhau unrhyw addasiadau i'r gweithle/oriau/dyletswyddau
- A oes unrhyw broblemau eraill sy'n cyfrannu at yr absenoldeb
- Diweddaru gweithwyr am unrhyw newyddion tra roeddent i ffwrdd o'r gwaith
- Cytuno ar gynllun gweithredu a rennir

## Cofnodi Dyddiad y Cyfweliad Dychwelyd i'r Gwaith

**Ar gyfer rheolwyr sy'n mewnbynnu salwch trwy 'My View'**

- Gellir mewnbynnu'r dyddiad ar y sgrin salwch perthnasol cyn belled â bod y cofnod salwch ar gyfer y cyfnod hwnnw heb ei gyflwyno.



Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council